
# DIRGELWCH Y DARIAN AUR

## Helfa Drysor Antur o gwmpas

## Penfro



BBC

HANDS ON HISTORY

THE NORMANS

# Pethau y Dylech Eu Gwybod Cyn Cychwyn

## Hyd

Mae'r Daith hon yn 2 filltir o hyd a dylai gymryd rhyw 2 awr i'w chwblhau.

## Man Cychwyn a Pharcio Ceir

Mae'r man cychwyn ger Canolfan Groeso'r Dre. Mae'r Ganolfan Groeso ar Ffordd y Comin, yr A4139, sydd ar ochr ddwyreiniol cylchffordd y dre. Mae yna ddigon o lefydd parcio ar hyd y Comin, gyferbyn, cyn ac ar ôl y Ganolfan Groeso. Ar hyn o bryd mae'n costio £1.00 am ddiwrnod cyfan. Mae yna barcio am ddim yn Stryd y Gorllewin er mae hwn yn faes parcio llai ac felly'n amlwg mae'n llenwi gyntaf. Mae yna gyfyngder uchder o 6' 6".




## Chwilotwr Cliwiau


Peidiwch â gadael cartref heb baratoi eich Chwilotwr Cliwiau. Torrwch y siapiau allan, ac os yn bosibl lamineiddiwch nhw neu argraffwch nhw ar gerdyn.

## Y Llwybr

Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr wedi ei osod ar balmentydd ac felly bydd esgidiau cerdded arferol yn iawn. Fel bob amser yng Nghymru mae yna gwpwl o riwiau serth ar hyd y llwybr ond does yna ddim grisiau i'w cerdded. Mae'r Llwybr yn addas ar gyfer cadeiriau gwthio plant ond yn anffodus nid yw'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae rhannau o'r Llwybr yn croesi dros, ac yn mynd ar hyd prif ffyrdd, felly dylech gymryd gofal ychwanegol ar hyd y rhannau hyn.

Cofiwch mai chi sy'n gyfrifol am eich diogelwch eich hun tra ar y Llwybr Antur.


# Allwch chi helpu Eric i ddatrys dirgelwch sy’n 1,000 o flynyddoedd oed?



Allwch chi ddychmygu sut deimlad fyddai datrys dirgelwch ffantastig a datguddio trysor anhygoel? Wel – dyma’ch cyfle. Mae chwedl yn dweud (sy’n golygu nad yw’r stori hon yn wir, ond mae’n swnio petai’n gallu bod!!) bod darn o Dapestri Bayeux oedd ar goll yn cynnwys map yn datgelu lleoliad y darian aur a gariwyd gan Gwilym Goncwerwr yn ystod Brwydr Hastings. Yn ddiweddar darganfu Dod i’r Afael â Hanes y BBC y darn coll ac mae ar Eric angen eich help chi i ddatrys y dirgelwch.

## Mae’r Tariannau’n Dangos y Ffordd

Wrth i chi gerdded o gwmpas Penfro, yn dilyn ein cyfarwyddiadau, rhaid i chi ddatrys y cliwiau, sydd â’u hatebion i’w canfod ar nodweddion parhaol o gwmpas y dref. Mae atebion cliwiau’n cyfateb i dariannau ar y map ar dudalen 8, ac unwaith y byddwch wedi eu ffeindio gall y tariannau hyn gael eu croesi i ffwrdd. Pan fyddwch wedi datrys y cliwiau i gyd bydd hyn yn gadael un darian bob ochr i’r map. Tynnwch linell o ganol y darian uchaf i ganol y darian isaf. Nesaf tynnwch linell o ganol y darian i’r chwith o’r canol i ganol y darian ar y dde. Y pwynt lle mae’r llinellau yma’n croesi yw’r lle mae’r trysor wedi ei guddio! Edrychwch ar yr enghraifft:




## Canfyddwr Cliwiau

Byddwch angen y Canfyddwr Cliwiau i ddatrys rhai o’r cliwiau. Cyn cychwyn bydd rhaid i chi baratoi’r Canfyddwr Cliwiau trwy dorri allan rai o’r cymhorthion gweld. Efallai y bydd angen i chi gael help gan oedolyn i wneud hyn. Mae cliwiau unigol yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut mae defnyddio’r Canfyddwr Cliwiau.

## Diogelwch ar y Daith

Rydych ar eich pen eich hun wrth i chi fynd o gwmpas y Daith ac felly rydych yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun. Mae cwsmeriaid yn cymryd rhan yn yr helfa drysor o’u gwirfodd ac yn deall eu bod yn llwyr gyfrifol am eu diogelwch eu hunain a’u parti tra ar yr helfa drysor. Ni all Treasure Trails Ltd a’r BBC gael eu dal yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i eiddo, neu ddamwain neu anaf i fywyd neu ran o’r corff a ddigwydd tra ar yr helfa hon.

## Tasgau Hwyliog

Ar hyd y ffordd mae ganddon ni nifer o dasgau hwyliog i chi eu gwneud. Ar gyfer ‘Dwi’n Gweld gyda Llygad Fach Eric’ bydd angen i chi sefyll ar fan arbennig er mwyn gweld a allwch chi weld beth mae Eric wedi ei weld.

Roedd y Normaniaid wrth eu bodd â phosau. Ceisiwch ddatrys rhai o ‘Bosau’r Brenin Steffan’ wrth i chi fynd ymlaen.

## MAN CYCHWYN


Canolfan Groeso'r dref ar hyd Ffordd y Comin.

## CYFARWYDDYD 1

Gan wynebu'r Ganolfan Groeso, trowch i'r chwith i ddilyn y brif ffordd nes iddi droi'n siarp i'r dde i fynd i fyny Westgate Hill tua'r castell.

## CLIW 1

Mae Capel Efengylaidd Westgate yn nodi lleoliad yr hen Borth Gorllewinol i'r dre; mae hefyd wedi bod yn Gapel Methodistiaid Calfinaidd yn ei dro. O ddau ddyddiad y cyfnod hwn, cymrwch y ddau rif unigol mwyaf y gallwch eu gweld a, gan ddefnyddio'r Chwilotwr Cliwiau, troswch y rhain i lythrennau cyntaf enwau er mwyn croesi allan darian â llythrennau tebyg.




## CYFARWYDDYD 2

Cariwch ymlaen i fyny'r rhiw tuag at y castell; mae yna fynegbost bys yn dangos y ffordd.

## CLIW 2

Wrth fynedfa'r castell, dewch o hyd i enw person gafodd ei eni yno. Nid ef oedd y person brenhinol cyntaf â'r enw yma, felly sawl un oedd o'i flaen? Croeswch allan y darian â'r rhif yma arni.



## A WYDDECH CHI ?

Gellir olrhain hanes Penfro nôl i'r 11$^{eg}$ Ganrif pan gyrhaeddodd Arnulph o Fynwy gyda llu o filwyr Normanaidd. Fe godon nhw gastell ar y bryn a brofodd i fod yn safle amddiffynnol effeithiol iawn gan ei bod wedi ei hamgylchynu â dŵr ar dair ochr. Goroesodd y castell gwreiddiol a adeiladwyd yn gyflym o bridd a phren am 100 mlynedd bron cyn iddo gael ei atgyfnerthu â cherrig.

## DWI'N GWELD GYDA LLYGAD FACH ERIC 1



Stopiwch pan fyddwch yn yr union fan i weld y llun yma.


Nawr datryswch hwn:

Dwi'n gweld gyda llygad fach Eric rywbeth yn dechrau â 3 PG (cliw – Neuadd Ymarfer).

Trowch i Dudalen 7 i weld a ydych chi'n iawn.

## CYFARWYDDYD 3

Cadwch ar ochr dde'r ffordd i fynd i gyfeiriad tŵr y cloc ar y Brif Ffordd. Dewch o hyd i Neuadd y Dref ar y dde i chi yn cael ei hamddiffyn gan ddau ganon o'r Crimea.



## CLIW 3

Ar yr hysbysfwrdd sy'n nodi cronoleg fer o hanes y dref, defnyddiwch y Canfyddwr Cliwiau a gosodwch siâp 5 ar ben y cofnod ar gyfer y flwyddyn 1090. Croeswch i ffwrdd y darian â'r un dyddiad ag y mae gwaywffon 6DD yn ei ddynodi.

## DWI'N GWELD GYDA LLYGAD FACH ERIC 2




Daliwch i fynd ar hyd y Stryd Fawr gan gadw i'r ochr dde. Stopiwch pan fyddwch yn yr union le i weld y llun hwn.

Nawr datryswch hyn:

Dwi'n gweld gyda llygad fach Eric rywbeth yn dechrau gyda PB C a G (Cliw – y tu allan i le i ddynion).

Trowch i Dudalen 7 i weld a ydych chi'n iawn.



## CLIW 4

Yn wreiddiol yn rhan o amddiffynfeydd caerog y dref, roedd y tŵr yma'n dŵr gwylio. Er hyn – yn ystod y 100-200 mlynedd ddiwethaf mae ei ben uchaf wedi cael ei newid yn fath o dŷ haf. Croeswch allan y darian sy'n dangos siâp y gwrthrych ar dop y to.

## POS 1 Y BRENIN STEFFAN

Dyw'r dyn a'i dyfeisiodd mo'i heisiau.

Dyw'r dyn a'i phrynodd mo'i hangen.

Dyw'r dyn sydd ei hangen ddim yn gwybod hynny.


Beth yw hi?


Trowch i Dudalen 7 i weld a ydych chi'n iawn



## CYFARWYDDYD 4

Trowch i mewn i'r Ffordd Newydd, lôn fechan sydd yn fuan ar ôl yr ateb i'r 'Dw i'n Gweld' olaf. Ar waelod y llethr trowch i'r chwith ar hyd y llwybr troed i ddod o hyd i dŵr ag 8 ochr.








## CYFARWYDDYD 5

Parhewch i'r chwith i fyny'r rhiw tuag at ganol y dref. Mae yna fynegbost bys yn dangos y ffordd. Trowch i'r chwith ar y gyffordd ar y brig i gyfeiriad canol y dref.



## A WYDDECH CHI ?

Yng nghanol y 12fed Ganrif, roedd y castell yn nwylo Gilbert de Clare ac roedd yn ganolfan bwysig ar gyfer y goncwest Normanaidd o'r Iwerddon.

## DWI'N GWELD GYDA LLYGAD FACH ERIC 3



Stopiwch pan fyddwch yn yr union le i weld y llun hwn.

Nawr datryswch hwn:

Dwi'n gweld gyda llygad fach Eric, rywbeth yn dechrau gyda'r RO

(Cliw – Diod unrhyw un?).

Trowch i Dudalen 7 i weld a ydych chi'n iawn.

## POS 2 Y BRENIN STEFFAN

Dechrau'r diwedd

Diwedd cyfnod a gofod

Dechrau'r dewisiadau

A phen draw penderfyniad

Beth yw e?

Trowch i Dudalen 7 i weld a ydych chi'n iawn.

## CLIW 5


Croeswch y ffordd yn ofalus ac ewch ymlaen i ddarganfod Gwesty a Thŷ Bwyta'r Cerbyty. Cymerwch y 11eg, 2il ac 8fed rhif eu rhif ffôn a, gan ddefnyddio'r Canfyddwr Cliwiau newidiwch y rhifau i lythrennau a dilëwch y darian â'r gair hwn.

## CYFARWYDDYD 6

Trowch i lawr y lôn rhwng y Cerbyty a'r arosfan bws, y toiledau a'r blwch ffôn. Cariwch ymlaen nes i'r lôn droi i'r chwith o flaen y pwll melin.

## CLIW 6

Ar y dde mae Tŵr Barnard. Cafodd hwn ei adeiladu yn ystod y 13eg – 14eg Ganrif. Yn wreiddiol yn gartref i filwyr oedd yn amddiffyn y dref mae nawr yn gartref i golomennod ac ystlumod. Sawl gris allwch chi eu cyfri sy'n arwain at y gât haearn? Peidiwch â chyfri'r un gul, fechan dan y gât ei hun. Croeswch i ffwrdd y darian â'r un rhif.



## A WYDDECH CHI ?

Cychwynnodd y goresgyniad Normanaidd o Gymru wrth i'r Brenin Gruffudd ap Llywelyn, yr un a unodd Cymru, ddechrau ymosod ar y Normaniaid yn Lloegr. Ar y dechrau doedd y Normaniaid ddim yn cymryd hyn o ddifrif, ond yn y diwedd ym 1081 cafodd byddin gryfach o lawer ei hanfon i dawelu'r Cymry, ac erbyn 1094 roedd y rhan fwyaf o Gymru dan reolaeth y Brenin Gwilym o Loegr.

## CYFARWYDDYD 7


Cariwch ymlaen gan gadw i'r chwith ar hyd y llwybr gyda phwll y felin ar y dde i chi. Mwynhewch yr olygfa a cherddwch am ychydig gan nad oes rhagor o gliwiau nes i chi ddod yn nes at y bont yn y pen draw.

## CLIW 7

Wrth hysbysfwrdd Pwll Melin Ganol Penfro, defnyddiwch y Canfyddwr Cliwiau i osod siâp 4 ar ben y dyfrgi. Yna croeswch i ffwrdd y geiriau gaiff eu dynodi gan y polyn 10G.

## CYFARWYDDYD 8

Croeswch y ffordd yn ofalus a mynd i mewn i faes parcio Cei'r De i ddod o hyd i hysbysfwrdd 'Croeso i Benfro'.




## A WYDDECH CHI ?

Adeiladodd y Normaniaid felin flawd yma yn y 12fed ganrif. Trwy ddefnyddio'r bont dros y dŵr fel argae, a rheoli llif y dŵr allan o'r pwll wrth i'r llanw gilio, roedd llif y dŵr yn gallu gyrru'r felin flawd. Roedd oriau gwaith yn ddibynnol ar gyflwr y llanw, gan gu rhai oriau gwaith anghymdeithasol iawn gan fod oriau'r llanw'n newid yn barhaus.


## CLIW 8

Gan ddefnyddio'r Canfyddwr Cliwiau, rhowch siâp 3 dros y llyfrgell. Pa eiriau sy'n ymddangos yn siâp 4?




## CYFARWYDDYD 9

Ewch ymlaen i ben draw'r maes parcio, gan gadw'r dŵr ar y dde i chi, dilynwch waelod y castell nes i chi ddod i ogof fawr.




## CLIW 9

Cyfrwch y nifer o fariau fertigol yn y gât i'r ogof ac yna cyfrwch y nifer o gymeriadau ar y plât glas i'r dde o'r gât – gan beidio â chyfri'r atalnodi. Nawr lluoswch y rhifau yma â'i gilydd a thynnwch nhw o 2000. Croeswch allan y darian â'r 'dyddiad' cyfatebol.



## A WYDDECH CHI ?

Yn hwyr yn y 13eg ganrif, cafodd adeiladau ychwanegol eu hychwanegu i'r castell uchod. Hefyd cafodd grisiau troellog eu creu yn mynd i lawr i'r ogof a welwch chi o'ch blaen. Caiff hon ei galw'n Ogof/Ceudwll Wogan ac mae'n nodwedd naturiol o'r graig carreg calch. Mae archwiliadau o'r ogof wedi datgelu tystiolaeth o anheddiad cynhanes gan ddangos bod pobl wedi bod yn byw yn yr ardal am amser eithriadol o hir.




## POS 3 Y BRENIN STEFFAN

Bwydwch fi ac fe fyddaf byw,

Rhowch ddiod i mi ac fe fyddaf farw.

Beth ydw i?

Trowch i Dudalen 7 i weld a ydych yn iawn.



## CYFARWYDDYD 10

Ewch ymlaen i fynd allan o'r llwybr 'Pwll y Castell' a chadwch i'r dde wrth i chi gyrraedd y prif ffordd er mwyn dilyn ir arwyddbost bys i Eglwys y Priordy.

## DWI'N GWELD GYDA LLYGAD FACH ERIC 4




Stopiwch pan fyddwch yn yr union le i weld y llun hwn.


Nawr datryswch hwn:

Dwi'n gweld gyda llygad fach Eric rhywbeth yn dechrau â PFf (Cliw – Tal a thenau).

Trowch i Dudalen 7 i weld a ydych yn iawn

## CYFARWYDDYD 11

Cariwch ymlaen i fyny Teras Pen-y-bont a chymrwch y tro cyntaf i'r dde i fynd heibio i Neuadd Monkton. Mae'n rhan o Lwybr y Dref ac mae wedi ei marcio Llwybr y Dref Rhan 4.



## CLIW 10

Beth yw siâp y ddwy ffenestr isaf sydd nesaf at y ffordd?

## CYFARWYDDYD 12

Ymlaen â chi at y gyffordd ar y top, ac yn union o'i flaen ar yr ochr dde, ewch i mewn i dir y Priordy ac Eglwys y Plwyf os yw ar agor, oherwydd mae'r capel yn werth ei weld. Os yw'r gatiau ar gau gallwch ateb y cliw nesaf o'r tu allan.

## CLIW 11

Ar arwydd y capel gwnewch y swm yma: Cyfrwch y nifer o ddotiau (atalnodau llawn) y gallwch eu gweld, ychwanegwch hyn at y nifer o eiriau 9 llythyren ac yna lluoswch y cyfanswm hwn gyda'r nifer o sêr ar y groes. Dilëwch y darian â'r rhif yma.

## CYFARWYDDYD 13

Dilynwch eich llwybr nôl allan o'r fynwent a nôl y ffordd y daethoch chi, i lawr Teras yr Eglwys ac yna trowch i'r chwith i deras Pen-y-bont. Ymlaen â chi yn syth am ychydig i fyny Rhiw Porth y Gorllewin (lle roeddech chi ar gyfer y cliw cyntaf), croeswch y ffordd ac yna trowch i'r dde i mewn i'r 'Rhodfa'. Cymrwch ofal fan yma gan fod y palmant yn gul ac mae'r traffig yn unffordd o'r tu ôl i chi.


## CLIW 12

Wrth y fynedfa i Rif 1, Rhiw Porth y Gorllewin – mae wedi ei farcio'n eglur – beth allwch chi ei weld yn adeiladwaith y gatiau metel?

## CYFARWYDDYD 14

Llongyfarchiadau – Fe ddylech nawr fod â 4 tarian ar ôl. Dilynwch y cyfarwyddiadau i ddatrys y pos ac edrychwch ar y dudalen "Pethau i'w gwneud ar ôl i chi orffen" i weld sut mae cyflwyno'ch ateb. I fynd yn ôl i'r dechrau gwnewch dro pedol i'r dde ger y rheiliau ger Llwybr y Bancwyr i fynd i lawr y llethr, ac yna trowch i'r dde ar y gwaelod i fynd yn ôl i'r dechrau er mwyn cwblhau'ch taith.

**Dyma'r atebion i 'Dwi'n Gweld gyda Llygad Fach Eric' a 'Phosau'r Brenin Steffan', ond peidiwch ag edrych nes i chi roi tro go iawn ar eu hateb!**



**Atebion 'Dwi'n Gweld Gyda Llygad Fach Eric' a 'Phosau'r Brenin Steffan':**

Dwi'n Gweld 1: 3 Pluen Garreg, Dwi'n Gweld 2: Polyn Barbwr Coch a Gwyn,
Dwi'n Gweld 3: The Royal Oak, Dwi'n Gweld 4: : Polyn Fflag.
Pos 1: : Arch, Pos 2: Y Llythyren d, Pos 3: Tân.

# DATRYSWCH Y DIRGELWCH

Bydd yr ateb i bob cliw yn cyfateb i un o'r tariannau o gwmpas y map. Datryswch y cliwiau i gyd a bydd pedair tarian ar ôl. Tynnwch linell o ganol y darian ar y top i ganol y darian ar y gwaelod a llinell o ganol y darian ar y chwith i ganol y darian ar y dde. Lle mae'r llinellau'n croesi yw'r man lle mae'r Darian Aur wedi ei chuddio.

Triongl | 1485 | DDF | Pysgodyn

Crethyll Tri Phigyn

DA

8

70

Sffêr

Town Quay

1712

Syr




Bach | 1271 | Bwa | 6

# Pethau i'w gwneud ar ôl i chi orffen


## 1. Anfonwch Eich Ateb i mewn i Weld A Ydych Yn Iawn

I anfon eich ateb anfonwch e-bost at handsonhistory@bbc.co.uk gan gynnwys y canlynol:

Yn y pennawd pwnc y geiriau: Tarian Aur.

Yng nghorff y testun: Yr ateb ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad e-bost.

Os ydych yn iawn fe dderbyniwch chi dystysgrif arbennig iawn.



## 2. Ewch i wefan BBC Hands on History.

Dewch i gwrdd â mi ar-lein ar


**bbc.co.uk/history**

a gwyliwch fy antur Normanaidd.


Dewch o hyd i deithiau cerdded, cestyll a safleoedd brwydrau Normanaidd yn eich ardal ar ein map rhyngweithiol. Argraffwch ganllawiau chwilio ar gyfer eich diwrnod o deithio.

Dewch o hyd i nifer o syniadau i fynd i'r afael â hanes yn ymarferol nôl adref:

- Crëwch gapsiwl amser teuluol
- Cynhaliwch eich gwledd ganoloesol eich hun
- Adeiladwch gastell Normanaidd bbc.co.uk/history



Cyhoeddwyd gan BBC Dysgu
Cynlluniwyd a chrëwyd y daith gan Treasure Trails Ltd
Lluniau gan Glen McBeth ac Aaron Hutchens


CANFYDDWR CLIWIAU
Peidiwch ag anghofio paratoi'ch Canfyddwr Cliwiau cyn i chi fynd i'ch helpu i ddatrys y dirgelwch!
1 A
2 B
3 C
4 CH
5 D
6 DD
7 E
8 F
9 FF
10 G
11 NG
12 H
13 I
14 L
Siâp 1
Siâp 2
Siâp 3
Siâp 4
Siâp 5